# Adolygiad o Gydnerthedd Ariannol, Pobl a Pherfformiad yn y Gwasanaethau Cymunedol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2487A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae cyfleoedd i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol feithrin cydnerthedd trwy rannu'r gwersi a'r arfer da sy'n amlwg mewn meysydd gwasanaeth penodol i fynd ati ymhellach i ddatblygu ei threfniadau i reoli perfformiad, a chryfhau trefniadau strategol ar gyfer cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu 6

Mae'r gwasanaeth gwastraff wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y cyfnod ers 2015 trwy gynllunio strategol cadarn a ategwyd gan fabwysiadu diwylliant dysgu i reoli newid yn effeithiol 6

Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer y gweithlu ac er bod y Gwasanaethau Cymunedol yn deall eu materion allweddol o ran y gweithlu ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â hwy, mae cyfle i gydweithio'n agosach gyda'r Adran Adnoddau Dynol i wella'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a'i gydnerthedd 9

Mae perfformiad gwastraff ac ailgylchu wedi gwella'n sylweddol ond mae'r defnydd o ddata ar berfformiad yn anghyson ar draws y Gwasanaethau Cymunedol ac nid oes digon o fanylder mewn rhai adroddiadau ar berfformiad 13

Mae trefniadau corfforaethol cadarn i fonitro'r gyllideb wedi helpu i reoli gorwariannau'r Gwasanaethau Cymunedol, ond mae cwmpas a ffocws cynllunio ariannol yn rhy fyrdymor 16

Atodiadau

Atodiad 1 – Perfformiad y Gwasanaethau Cymunedol yn erbyn y gyllideb 21

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham


1 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn am bod ein gwaith yn flaenorol wedi adnabod risgiau yn niwylliant rheolaeth ariannol y Cyngor ac effaith hynny ar gydnerthedd parhaus y Cyngor, mewn meysydd megis ariannol, pobl a rheoli perfformiad.

2 Mewn cytundeb â'r Cyngor, fe ddewisom ni'r Gwasanaethau Cymunedol fel gwasanaethau olrhain i archwilio cydnerthedd y Cyngor a'i drefniadau i ategu a llywio gwelliant cynaliadwy.

3 Fel a nodir yn Arddangosyn 1, mae'r Gwasanaethau Cymunedol yn rhan o'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol ehangach. Mae'n cynnwys tri maes gwasanaeth: Gwasanaethau Cymdogaeth, Gwasanaethau Eiddo a Gwasanaethau Seilwaith. Mae'r rhain yn darparu portffolio amrywiol o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau gwastraff, priffyrdd, yr amgylchedd adeiledig a naturiol, arlwyo a glanhau, a gwasanaethau technegol megis pensaernïaeth.

**Arddangosyn 1: strwythur y Gwasanaethau Cymunedol**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos sut y mae'r Gwasanaethau Cymunedol yn perthyn o fewn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol.




4 Gan bod gwasanaeth gwastraff y Cyngor yn eistedd o fewn y Gwasanaethau Cymunedol, roedd yr adolygiad yn gyfle i ni hefyd wneud gwaith dilynol ar ein Hadolygiad o Wasanaethau Gwastraff a gynhaliwyd gennym yn 2017. Ar y pryd, fe wnaethom adrodd bod y Cyngor yn ymrwymedig i wella'i berfformiad o ran gwastraff ac ailgylchu, ond bod angen cynllun busnes hirdymor a ystyriwyd yn ofalus ac ymgysylltiad â defnyddwyr i ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol, gwella perfformiad ac osgoi cosbau ariannol posibl. Mae ein hadolygiad cyfredol yn ystyried cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r tri chynnig ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad yn 2017:

- **C1** – Datblygu a chytuno ar gynllun busnes hirdymor sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau statudol cyfredol ac yn y

dyfodol ar gyfer perfformiad y gwasanaeth gwastraff, ac sy'n egluro'r trefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun.

- **C2** – Gwerthuso'r modd y rhoddwyd newidiadau diweddar ar waith mewn gwasanaethau casglu gwastraff. Yn arbennig:
  - ei reolaeth ar y prosiect ar y cyfan;
  - ansawdd cynlluniau gwasanaethau fel ysgogwyr ar gyfer gwelliant;
  - y modd y cyfathrebwyd/yr ymgysylltwyd â thrigolion lleol ynghylch y newidiadau.
- **C3** – Gwella ansawdd, mynychder ac amseroldeb y broses o adrodd ar berfformiad y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu wrth y weithrediaeth ac wrth y pwyllgor trosolwg a chraffu.

5 Roedd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol y Cyngor yn gynaliadwy ac yn gydnerth?** ac fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ebrill 2021.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| **C1** | I gryfhau ei gydnerthedd, dylai'r Gwasanaethau Cymunedol sicrhau bod gwersi ac arfer da sy'n bodoli yn eu gwahanol feysydd gwasanaeth yn cael eu rhannu drwy'r gyfarwyddiaeth i gyd. Dylai'r Cyngor ystyried hefyd a fyddai o fudd iddo rannu rhai enghreifftiau'n fwy eang ar draws y Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Mae cyfleoedd i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol feithrin cydnerthedd trwy rannu'r gwersi a'r arfer da sy'n amlwg mewn meysydd gwasanaeth penodol i fynd ati ymhellach i ddatblygu ei threfniadau i reoli perfformiad, a chryfhau trefniadau strategol ar gyfer cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu

### Mae'r gwasanaeth gwastraff wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y cyfnod ers 2015 trwy gynllunio strategol cadarn a ategwyd gan fabwysiadu diwylliant dysgu i reoli newid yn effeithiol

6 Mae'r adran hon yn nodi cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad blaenorol o wasanaethau gwastraff.

#### CagG 1: Datblygu a chytuno ar gynllun busnes hirdymor sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau statudol cyfredol ac yn y dyfodol ar gyfer perfformiad y gwasanaeth gwastraff, ac sy'n egluro'r trefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun

Canfuom fel a ganlyn:

7 Mae gan y Cyngor bellach strategaeth rheoli gwastraff ac ailgylchu a gymeradwywyd gan yr aelodau, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP).

8 Mae'r strategaeth yn nodi newidiadau allweddol i'r gwasanaeth sy'n ofynnol dros y blynyddoedd nesaf i gyfeirio'r Cyngor wrth iddo ymegnïo i gyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% yn 2024.

9 Mae dau gynllun gweithredu'n ategu'r strategaeth: cynllun hirdymor, lefel uchel sy'n rhychwantu cylch oes y strategaeth a chynllun blynyddol ar gyfer 2019-20. Canfuom fod cyfle i gryfhau'r cynllun tymor hwy trwy gynnwys rhagor o fanylion am gamau gweithredu arfaethedig, perfformiad cyfredol os yn berthnasol, a pherfformiad a dargedir. Byddai hyn yn cynorthwyo swyddogion ac aelodau i fonitro cynnydd a chael sicrwydd bod camau gweithredu'n cael eu cyflawni fel a fwriadwyd.

10 Mae swyddogion yn cwrdd â chynrychiolwyr o WRAP bob chwe wythnos i adolygu'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gwastraff. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar raddfeydd amser gwreiddiol y Cyngor ar gyfer adrodd wrth

aelodau ar gynnydd yn erbyn y strategaeth. Yn ddealladwy, mae ffocws yr adnoddau wedi bod ar ymateb i'r pandemig a chynnal gwasanaethau rheng-flaen ac, ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd yr aelodau wedi cael adroddiad monitro ar y strategaeth gwastraff eto.

11 Mae swyddogion yn bwriadu adolygu'r strategaeth erbyn dechrau 2022 i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu allweddol yn dal i fod yn berthnasol yn ogystal ag ystyried unrhyw newidiadau i'r strategaeth. Wrth adolygu'r strategaeth, efallai y bydd swyddogion yn dymuno ystyried manteision amcangyfrif cost cyflawni'r strategaeth ar y cyfan. Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur beth fyddai goblygiadau rhoi'r strategaeth gyfan ar waith o safbwynt costau gan bod hyn yn cael ei wneud ar sail prosiectau unigol wrth iddynt fynd trwy'r broses ddemocrataidd ar gyfer cael cymeradwyaeth. Byddai cyfrifo costau dangosol hefyd yn galluogi'r Cyngor i adlewyrchu cost cyflawni'r strategaeth gwastraff yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Yn yr un modd, gallai'r Cyngor gynnwys asesiad dangosol o effaith bosibl pob cam gweithredu ar gyfraddau ailgylchu. Byddai hyn o gymorth gyda gwneud penderfyniadau ac yn darparu sicrwydd bod buddsoddiadau i gyrraedd targedau ailgylchu yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn cynnig gwerth da am arian.

## CagG 2: Gwerthuso'r modd y rhoddwyd newidiadau diweddar ar waith mewn gwasanaethau casglu gwastraff. Yn arbennig:

- **ei reolaeth ar y prosiect ar y cyfan;**
- **ansawdd cynlluniau gwasanaethau fel ysgogwyr ar gyfer gwelliant; a hefyd**
- **y modd y cyfathrebwyd/yr ymgysylltwyd â thrigolion lleol ynghylch y newidiadau**

Canfuom fel a ganlyn:

12 Yn 2015, rhoddodd y Cyngor newidiadau arwyddocaol ar waith yn ei wasanaeth gwastraff. Roedd hyn yn golygu newid o gasgliadau pythefnosol i gasgliadau bob tair wythnos ar gyfer gwastraff gweddillol, cynwysyddion newydd ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy, newid cerbydau, newid llwybrau, a diwrnodau casglu gwahanol ar gyfer trigolion. Canfu ein hadolygiad blaenorol o'r gwasanaeth gwastraff fod canlyniadau gwneud newidiadau mor arwyddocaol heb dreialu'r trefniadau newydd na'u cyflwyno'n raddol yn sylweddol. Ers hynny, bu newid amlwg yn niwylliant y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Mae'r rheolwyr yn myfyrio'n fwy, yn gwerthuso'n fwy ac yn dangos parodrwydd i ddysgu oddi wrth eraill yn ogystal ag o brofiadau blaenorol. Er enghraifft, gwers bwysig o'r newid i'r gwasanaeth yn 2015 oedd yr angen i dreialu systemau newydd ac ystyried yr effaith ar drigolion cyn eu cyflwyno'n ehangach. Yn ddiweddar, fe wnaeth y gwasanaeth gwastraff dreialu'r defnydd o sachau hesian i gasglu cardbord mewn 2000 o gartrefi. Wedyn fe geisiodd y Cyngor farn y trigolion hyn cyn cyflwyno'r sachau hesian ledled y Fwrdeistref Sirol.

13 Yn dilyn y newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn 2015, fe sefydlodd y Cyngor fwrdd gwaith ar y cyd â WRAP, gyda WRAP yn gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae'r berthynas rhwng WRAP a'r Cyngor wedi esblygu dros amser yn bartneriaeth gydgefnogol. Mae WRAP yn defnyddio'r Cyngor fel esiampl i awdurdodau lleol eraill o ran sut i ddysgu o newidiadau i'r gwasanaeth ac mae'r Cyngor yn fodlon helpu cynghorau eraill trwy rannu ei brofiadau. Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio gyda WRAP i dreialu mentrau newydd, er enghraifft ffrwd ailgylchu haenau plastig. Bydd y gwersi a ddysgir o'r treialon hyn yn helpu i oleuo newidiadau i wasanaethau gwastraff ym Mlaenau Gwent a ledled Cymru yn y dyfodol.

14 Canfuom hefyd fod cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth wedi gwella yn y gwasanaeth gwastraff. Mae goruchwylwyr yn gweithio'n agos gyda'r criwiau gwastraff ac ailgylchu ac fe gynhelir cyfarfodydd rheolaidd i friffio ar iechyd a diogelwch.

## CagG 3 – Gwella ansawdd, mynychder ac amseroldeb y broses o adrodd ar berfformiad y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu wrth y weithrediaeth ac wrth y pwyllgor trosolwg a chraffu

Canfuom fel a ganlyn:

15 Cafodd Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol a'r Weithrediaeth adroddiad blynyddol cynhwysfawr ar berfformiad rheoli gwastraff ac ailgylchu ar gyfer 2018-19 a 2019-20.

16 Mae'r adroddiadau'n cynnwys cyfoeth o ddata i holi a herio ac yn rhoi digon o wybodaeth am berfformiad i'r aelodau allu cael sicrwydd ynghylch perfformiad y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.

17 Bu ychydig bach o oedi cyn cyflwyno'r adroddiad ar berfformiad yn 2019-20 i'r aelodau yn ystod pandemig y Coronafeirws o ganlyniad i atal pwyllgorau craffu rhwng mis Ebrill 2020 a mis Medi 2020. Fel arfer, mae aelodau'n cael data interim ynghylch perfformiad y gwasanaeth gwastraff yn yr adroddiadau ar berfformiad y Gwasanaethau Cymunedol a gyflwynir ddwywaith y flwyddyn ond mae'r rhain wedi cael eu hatal yn ystod y pandemig. Mae'r Cyngor yn disgwyl adfer y rhain yn 2020-21.

## Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer y gweithlu ac er bod y Gwasanaethau Cymunedol yn deall eu materion allweddol o ran y gweithlu ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â hwy, mae cyfle i gydweithio'n agosach gyda'r Adran Adnoddau Dynol i wella'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a'i gydnerthedd

Canfuom fel a ganlyn:

18 Mae swyddogion yn deall y materion allweddol o ran cydnerthedd y gweithlu o fewn eu meysydd gwasanaeth ac maent yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain.

19 Pan siaradom ni gyda swyddogion, cafodd cynllunio'r gweithlu ei amlygu fel mater allweddol ac mae pob un o'r tri maes o fewn y Gwasanaethau Cymunedol yn cymryd camau i ddod o hyd i ddatrysiadau i'w heriau penodol o ran cynllunio'r gweithlu.

20 Mae'r Gwasanaethau Cymdogaeth wedi rhoi nifer o newidiadau ar waith yn y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â chynllunio'r gweithlu a chryfhau cydnerthedd eu gweithlu. Er enghraifft, cyflwynodd y Gwasanaethau Cymdogaeth fodel gweithlu integredig ychydig o flynyddoedd yn ôl. Mae hyn wedi creu gweithlu hyblyg lle mae staff ar draws gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu, priffyrdd a mannau gwyrdd yn cael eu hyfforddi i weithio ar draws y gwahanol adrannau i gyflenwi pan fo angen. Mae'r hyblygrwydd hwn i addasu i achosion o darfu wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio wedi cryfhau cydnerthedd y gwasanaeth. O ganlyniad, roedd mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig.

21 Yn 2020, fe roddodd y Gwasanaethau Cymdogaeth strwythur newydd ar waith hefyd, gan greu rolau Arweinwyr Tîm Cynorthwyol newydd. Mae'r rolau hyn wedi ychwanegu cydnerthedd at y gwasanaeth trwy greu capasiti ychwanegol i ddarparu gwasanaethau rheng-flaen yn ogystal â darparu cyswllt uniongyrchol rhwng swyddogion rheng-flaen a'r tîm rheoli. Digwyddodd hyn yn dilyn penderfyniad gan y gwasanaeth i wneud nifer o weithwyr asiantaeth yn weithwyr mewnol yn 2019, gan ddefnyddio'r gyllideb staff asiantaeth i dalu costau cyflogaeth uniongyrchol a gwella cydnerthedd y gweithlu ar draws gwasanaethau rheng-flaen. Fel rhan o'r ailstrwythuro yn 2020, fe wnaeth y gwasanaeth ystyried ei weithlu yn y dyfodol hefyd ac mae'n gweithio gyda thîm prentisiaeth Aspire y Cyngor a cholegau lleol i lenwi bylchau o ran sgiliau a gwybodaeth yn y dyfodol.

22 Efallai na fydd y camau a gymerwyd gan y Gwasanaethau Cymdogaeth i greu gweithlu mwy hyblyg a chydnerth yn briodol i'r Gwasanaethau Cymunedol i gyd, ond dylai'r Cyngor sicrhau bod gwersi cadarnhaol yn cael eu rhannu ar draws y Gwasanaethau Cymunedol, yn ogystal ag yn fwy eang ar draws y Cyngor gydag adrannau eraill a allai gael budd o ddull tebyg.

23 Mae gan rannau o'r Gwasanaethau Cymunedol broffil gweithlu sy'n heneiddio ac mae hyn yn broblem benodol yn y rolau gwaith proffesiynol a thechnegol o fewn

Gwasanaethau Seilwaith ac Eiddo. Mewn ymateb, fe wnaeth y gwasanaethau gyflwyno rhaglenni prentisiaeth i helpu gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth a llenwi rhai o'r bylchau a fydd yn cael eu creu pan fydd cydweithwyr yn ymddeol. Er enghraifft, i geisio mynd i'r afael â'r anhawster parhaus gyda recriwtio pobl gymwysedig, ifanc i mewn i swyddi peirianegol technegol, fe sefydlodd y Cyngor brentisiaethau technegol. Ar hyn o bryd, mae gan y gwasanaeth ddwy brentisiaeth peirianneg. Fodd bynnag, nid ateb byrdymor yw prentisiaethau a dylai'r Cyngor sicrhau bod yr amser aros hwn yn cael ei ystyried yn ei gynlluniau ar gyfer olyniaeth.

24 Er bod swyddogion wedi dangos dealltwriaeth dda am y materion allweddol o ran y gweithlu sy'n effeithio ar eu meysydd, nid oes gan y Cyngor strategaeth gynhwysfawr a chyfoes ar gyfer y gweithlu i gefnogi swyddogion a rhoi arweiniad iddynt. Mae'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol bresennol ar gyfer 2015-20 yn ddogfen lefel uchel ac nid yw'n adlewyrchu newidiadau diweddar megis effaith COVID-19 a Pontio'r Bwlch ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu a'i anghenion dilynol o ran y gweithlu. Mae'r Cyngor yn deall hyn ac mae wrthi'n datblygu strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer y gweithlu. Ar adeg ein gwaith maes roedd y strategaeth yn agos at gael ei chwblhau ond nid oedd ar gael i'w hadolygu eto; gan hynny ni allwn wneud sylwadau ar ei chynnwys.

25 Mae ymdeimlad cryf o dîm yn elfen allweddol o weithlu cydnerth. Dywedodd swyddogion y siaradom ni gyda hwy mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws eu bod yn teimlo'n rhan o dîm cryf. Roedd rhai'n priodoli hyn i brosesau ailstrwythuro diweddar, megis yn y Gwasanaethau Cymdogaeth, ac eraill yn ei briodoli i gydleoli gwahanol dimau yn y Ganolfan Ddinesig. Ni wnaeth yr un ohonynt nodi unrhyw newidiadau neu gyflwyniadau a allai wella'u hymdeimlad cryf o dîm ymhellach.

26 Mae swyddogion yn rhoi gwerth mawr ar weithio ochr yn ochr â'i gilydd yn gorfforol ac mae felly'n ddealladwy bod yr ymdeimlad o fod yn rhan o dîm cryf yn gwanhau rywfaint yn ystod y pandemig. Ymddengys fod hyn i'w briodoli'n bennaf i'r angen i weithio gartref lle y bo'n bosibl, sy'n cyfyngu ar ryngweithio cymdeithasol, yn lleihau trafodaethau anffurfiol, yn ogystal â'r ffaith nad yw technoleg wastad yn cefnogi staff yn effeithiol i weithio o bell. Cydnabu swyddogion fod y newid hwn i drefniadau gweithio'n anrhagweladwy ac na ddeilliodd o newid mewn arddull rheoli na diwylliant. Fodd bynnag, mynegodd rhai bryder nad oedd y Cyngor wedi cymryd eu pryderon ynghylch gweithio gartref o ddifrif, a rannwyd fel rhan o'r arolwg o ffyrdd o weithio yn y dyfodol tuag at ddiwedd 2020.

27 Ers i ni siarad gyda swyddogion fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo model gweithredu newydd yn seiliedig ar weithio ystwyth. Ym mis Mawrth 2021, fe roddodd y Cyngor gymeradwyaeth i ddatgomisiynu'r Ganolfan Ddinesig ac fe rannwyd y gweithlu'n dri grŵp: gweithwyr cartref, gweithwyr ystwyth, a gweithwyr cymunedol. Wrth ddatblygu'r trefniadau newydd, dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol o effaith y model newydd ar ymdeimlad y gweithlu o dîm ac ystyried sut orau i reoli unrhyw risgiau i lesiant a chydnerthedd staff.

28 Mae’r Cyngor yn disgwyl i’r holl staff gael arfarniad blynyddol o berfformiad, ond cafodd y disgwyliad hwn ei lacio yn ystod y pandemig. Cyfrifoldeb rheolwyr yw diweddaru iTrent ag arfarniadau wedi’u cwblhau; fodd bynnag, nid oedd y canol corfforaethol yn gallu darparu unrhyw ddata ar ein cyfer ynghylch cyfraddau cwblhau arfarniadau ar gyfer blynyddoedd cyfredol na blynyddoedd blaenorol. Felly nid ydym yn gallu gwneud sylwadau ar berfformiad y Gwasanaethau Cymunedol mewn perthynas ag arfarniadau blynyddol. Fodd bynnag, yn ystod grwpiau ffocws, dywedodd swyddogion eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu perfformiad a’u datblygiad personol. Efallai y bydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol yn dymuno gofyn am ddata ar gwblhau arfarniadau blynyddol o fewn y gwasanaeth i gael sicrwydd yn y maes hwn.

29 Roedd ystod o safbwyntiau yn y grwpiau ffocws ynghylch pwysigrwydd datblygiad personol staff i’r Cyngor. Roedd rhai swyddogion yn canmol y cymorth yr oeddent yn ei gael gan y Cyngor i fynychu hyfforddiant ac ennill cymwysterau. Rhannodd swyddogion nifer o enghreifftiau o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ac ystyried eu datblygiad personol.

30 Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn y Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae data cymharol ar gyfer 2017-18 a 2018-19 yn dangos mai Blaenau Gwent oedd â’r cyfraddau uchaf yng Nghymru (nid oedd data cymharol ar gael ar gyfer 2019-20). Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y Gwasanaethau Cymunedol yn uwch na chyfartaledd y Cyngor. Nid yw’n glir a yw cyfraddau yn y meysydd gwasanaeth hyn yn nodweddiadol uwch na’r cyfartaledd cyngor cyfan mewn awdurdodau lleol eraill gan na wneir unrhyw feincnodi ar lefel gwasanaethau.

**Arddangosyn 2: cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch y Gwasanaethau Cymunedol**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos nifer y diwrnodau a gollwyd i absenoldeb oherwydd salwch am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn rhwng 2015-16 a 2019-20 ar gyfer y Cyngor cyfan ac ar gyfer y Gwasanaethau Cymunedol[1]

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor | 11.39 | 12.49 | 11.23 | 12.66 | 13.91 |
| Yr Amgylchedd / Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol | 10.35 | 18.67 | 19.19 | 11.21 | 16.15 |
| Gwasanaethau Cymunedol | | | | | 19.35 |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Perfformiad Absenoldeb oherwydd Salwch yr adroddwyd arno wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2020 / Ffigwr y Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer 2019-20 o un o ddogfennau mewnol y Cyngor

31 Mae'r adroddiad diweddaraf ar absenoldeb oherwydd salwch i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol yn nodi bod tystiolaeth o weithredu gan reolwyr i reoli salwch. Mae ffigyrau ar gyfer chwarteri 1 i 3 yn 2020-21 yn dangos bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn y Gwasanaethau Cymunedol wedi gostwng 40% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol: 8.2 diwrnod wedi'u colli am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn o'i gymharu ag 13.6 diwrnod ar yr un adeg yn 2019-20. Nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn i'w briodoli i reoli salwch neu ffactorau eraill, megis y pandemig. Dylai'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol sicrhau bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ac ymdrechion i ganfod y materion allweddol sy'n sail i berfformiad a mynd i'r afael â hwy yn cael eu herio'n barhaus.

32 Ceir problem sylweddol gyda'r ganran isel o gyfweliadau dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb oherwydd salwch yn y Gwasanaethau Cymunedol a gwblhawyd ar iTrent. Cododd y gyfradd gwblhau dim ond o 16.5% yn 2019-20 i 17.2% erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020. Nid oedd rhai swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n ymwybodol o'r gofyniad i gofnodi cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb oherwydd salwch ar iTrent. Efallai fod y gyfradd gwblhau isel i'w phriodoli hefyd i'r ffaith nad yw swyddogion cyfrifol wedi cael unrhyw hyfforddiant i ddefnyddio iTrent.

[1] Adroddir ar absenoldeb oherwydd salwch ar lefel cyfarwyddiaethau, h.y. Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol. Lle mae'r dadansoddiad ar gyfer y Gwasanaethau Cymunedol yn unig ar gael, rydym wedi cynnwys hwn.

33 Mae cyfleoedd i’r Gwasanaethau Cymunedol a’r Adran Adnoddau Dynol gyfathrebu a gweithio gyda’i gilydd yn fwy effeithiol. Gyda’i gilydd gallant gyfuno’u priod arbenigeddau i flaenoriaethu a datrys y materion a amlygir uchod ac adeiladu ar y camau gweithredu sydd eisoes ar y gweill i gryfhau cydnerthedd y gweithlu a sicrhau bod gweithlu’r Gwasanaethau Cymunedol yn addas ar gyfer y dyfodol.

## Mae perfformiad gwastraff ac ailgylchu wedi gwella’n sylweddol ond mae’r defnydd o ddata ar berfformiad yn anghyson ar draws y Gwasanaethau Cymunedol ac nid oes digon o fanylder mewn rhai adroddiadau ar berfformiad

34 Caiff mesurau perfformiad y Gwasanaethau Cymunedol eu nodi yn ei gynlluniau busnes. Caiff cynllun busnes trosfwaol y Gwasanaethau Cymunedol ei ategu gan gynlluniau busnes ar wahân ar gyfer gwasanaethau Cymdogaeth, Seilwaith ac Eiddo. Maent i gyd yn rhychwantu’r cyfnod 2018-22 ac wedi’u hysgrifennu gyda chymorth gan y tîm busnes corfforaethol.

35 Mae cynlluniau busnes yn dangos cysylltiadau eglur â’r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cynnwys camau gweithredu yn erbyn pob un o flaenoriaethau’r gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) penodol. Fodd bynnag, nid yw aelodau’n cael y cynlluniau hyn felly nid ydynt yn cael cyfle i ddeall, herio ac ystyried camau gweithredu a thargedau arfaethedig gwasanaethau a sut y mae’r rhain yn ategu’r blaenoriaethau corfforaethol. Nid yw’r trefniadau hyn yn unigryw i’r Gwasanaethau Cymunedol ac maent yn gyson â’r arfer ar draws y Cyngor.

36 Yn weithredol, mae’r Pennaeth Gwasanaeth yn defnyddio’r cynlluniau busnes i fonitro cynnydd. Fodd bynnag, er bod camau gweithredu mewn cynlluniau busnes yn cael sgôr BRAG (Glas, Coch, Oren, Gwyrdd) i ddangos statws y cynnydd, nid oes targedau a graddfeydd amser ar gyfer eu cwblhau, sy’n ei gwneud yn anodd gweld sut y caiff cynnydd ei asesu.

37 Mae DPAau yn y cynlluniau busnes yn gyfuniad o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) cenedlaethol a mesurau lleol. Ychydig o dystiolaeth a welsom bod y Gwasanaethau Cymunedol yn mynd ati’n rheolaidd i adolygu’r mesurau a bennwyd ganddynt yn lleol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol a bod targedau’n parhau i fod yn gyraeddadwy ac yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

38 Ymddengys fod gwybodaeth am berfformiad yn y Gwasanaethau Cymunedol yn cael ei defnyddio’n bennaf ar gyfer adrodd ar berfformiad hanesyddol ond ceir rhai enghreifftiau o’i defnyddio i gynllunio’r modd y darperir gwasanaethau. Er enghraifft, mae’r Gwasanaethau Cymdogaeth yn defnyddio data cyfredol yn effeithiol i gynllunio’u gwasanaeth ailgylchu i wella perfformiad. Mae swyddogion yn defnyddio data sydd ar gael o’r gwahanol gylchoedd casglu gwastraff ac ailgylchu i bennu lefelau’r cyfranogiad mewn ailgylchu. Wedyn defnyddir y data hwn i dargedu ardaloedd penodol yn y Fwrdeistref trwy ymgyrch ‘Cystadlu â’r Cymdogion’ y Cyngor.

39 Mae'r gwasanaeth gwastraff yn cydnabod nad oes ganddo'r capasiti i wneud yr holl waith modelu perfformiad sy'n angenrheidiol, er enghraifft ar fodelau posibl i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer gwastraff. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda WRAP ar wybodaeth modelu perfformiad a dadansoddiad cost a budd o'r opsiynau.

40 Mae Gwasanaethau Cymdogaeth yn fwy effeithlon na gwasanaethau eraill yn y Gwasanaethau Cymunedol o ran sut y maent yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad, gan bod gwastraff yn wasanaeth a reoleiddir yn helaeth. Nid yw gwasanaethau eraill yn cael eu rheoleiddio i'r un graddau felly maent yn llai datblygedig o ran casglu data a'i ddefnyddio i wella gwaith cynllunio a'r modd y darperir gwasanaethau. Mae'r Gwasanaethau Cymdogaeth hefyd yn cael budd o gymorth Swyddog Data Perfformiad sy'n cynorthwyo gyda dadansoddi data ar berfformiad rheoli gwastraff ac adrodd arno. Gallai fod o fudd i rannau eraill o'r Gwasanaethau Cymunedol gael cymorth i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio data ar berfformiad yn fwy effeithiol.

41 Tystiolaeth gyfyngedig sydd ar hyn o bryd bod y Gwasanaethau Cymunedol yn cysylltu eu data ar berfformiad a'u data ariannol yn rheolaidd i ddangos gwerth am arian. Byddai dull o'r fath o gymorth i wneud penderfyniadau gwybodus, yn ei gwneud yn bosibl targedu adnoddau'n well ac yn darparu sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd. Gellid ystyried hyn ymhellach fel rhan o waith ehangach y Cyngor ar ddatblygu ei ddefnydd o ddata.

42 Fe beidiodd yr arfer o adrodd wrth aelodau ar berfformiad yn ystod y pandemig gan bod cyfarfodydd pwyllgorau wedi'u hatal a swyddogion perthnasol wedi'u hadleoli i roi cymorth i gynllunio ymateb y Cyngor i'r pandemig. Roedd hyn yn golygu, ar adeg pan oedd gwasanaethau'n cael eu haddasu i ymateb i'r newidiadau angenrheidiol i wasanaethau, nad oedd aelodau'n cael eu gwneud yn ymwybodol mewn modd ffurfiol o effaith y newidiadau hyn ar berfformiad gwasanaethau. Gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i gynorthwyo aelodau i wneud penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch unrhyw newidiadau parhaol i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol

43 Cyn y pandemig roedd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol yn cael adroddiadau ar berfformiad ddwywaith y flwyddyn a oedd yn crynhoi gweithgarwch a pherfformiad mewn perthynas â blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor ar gyfer Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Graff. Mae'r adroddiad diweddaraf yn cwmpasu dau chwarter cyntaf 2019-20 ac fe'i cafwyd gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019. Er bod y fformat yn ymgysylltiol, gydag amrywiaeth o ddata ansoddol a meintiol, nid oes data cymharol ynddo i alluogi aelodau i herio perfformiad yn erbyn targedau, blynyddoedd blaenorol ac awdurdodau eraill.

44 Mae asesiad blynyddol y Cyngor o berfformiad a'i adroddiadau cyllid a pherfformiad chwarterol ar y cyd[2] i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r

[2] Mae'r adroddiadau cyllid a pherfformiad chwarterol ar y cyd wedi cael eu hatal ers yr achos o COVID-19.

Weithrediaeth hefyd yn cynnwys agweddau ar berfformiad y Gwasanaethau Corfforaethol. Fodd bynnag, caiff data ar berfformiad ei gyflwyno fesul chwarter, gan ei gwneud yn anodd cymharu perfformiad blynyddol â blynyddoedd blaenorol ac mae diffyg targedau'n ei gwneud yn anodd penderfynu a yw'r perfformiad fel a ddisgwylir.

45 Canfu adolygiad o'r adroddiadau perfformiad a chynlluniau busnes gwasanaethau a nodir uchod fod perfformiad y Gwasanaethau Cymdogaeth yn erbyn eu dangosyddion perfformiad yn gwella. Rhwng 2017-18 a 2019-20:

- fe wnaeth swm y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd gynyddu 17%, gan wella safle'r Cyngor o'r 22ain i'r 11eg yng Nghymru;
- fe wnaeth swm y gwastraff trefol a anfonwyd i safle tirlenwi ostwng 92% ac fe wnaeth y cilogramau cyfartalog o wastraff gweddillol a grëwyd y pen yn y sir ostwng 65%;
- fe wnaeth y ganran o'r strydoedd a oedd yn perthyn i'r dosbarth strydoedd glân gynyddu 7%; ac
- fe wnaeth nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon ostwng 35%[3].

46 Mae'r gwasanaeth gwastraff yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed ailgylchu statudol o 64% ar gyfer 2020-21, ac yntau wedi parhau i ddarparu'r holl wasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn ystod y pandemig.

47 Mae perfformiad y Gwasanaethau Seilwaith yn dangos sawl maes sy'n gwella. Rhwng 2017-18 a 2019-20, fe wnaeth y Cyngor ostwng nifer y ffyrdd a oedd mewn cyflwr gwael gyda dim ond ffyrdd B islaw cyfartaledd Cymru:

- Gostyngiad o 23% yn nifer y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael;
- Gostyngiad o 11% yn nifer y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael;
- Gostyngiad o 11% yn nifer y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael.

Fe wnaeth perfformiad yn erbyn mesurau lleol sy'n ymwneud â choed ac â gweithgareddau Rheoli Adnoddau Naturiol mewn ysgolion wella hefyd ond nid oedd cynllun busnes y Gwasanaethau Seilwaith yn cynnwys data ar gyfer rhai dangosyddion.

48 Mae perfformiad y Gwasanaethau Eiddo'n dal i fod yn sefydlog, a hwythau wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'u targedau perfformiad chwarterol, ond nid oedd y cynllun busnes a gawsom ni'n cynnwys data ar berfformiad y tu hwnt i chwarter 3 yn 2019-20. Mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion y Gwasanaethau Eiddo'n lleol ac nid adroddir arnynt wrth aelodau.

[3] Cyflwynwyd y mesur hwn yn 2018 ac felly mae'n ymwneud â gwelliant mewn perfformiad rhwng 2018-19 a 2019-20, yn hytrach na rhwng 2017-18 a 2019-20.

## Mae trefniadau corfforaethol cadarn i fonitro'r gyllideb wedi helpu i reoli gorwariannau'r Gwasanaethau Cymunedol, ond mae cwmpas a ffocws cynllunio ariannol yn rhy fyrdymor

49 Canfu ein hadolygiad diweddar o Gynaliadwyedd Ariannol, er bod perfformiad y Cyngor ar y cyfan yn erbyn y gyllideb yn gwella, fod rhai meysydd gwasanaeth yn parhau i orwario. Mae portffolio'r Amgylchedd, sy'n cynnwys y Gwasanaethau Cymunedol, yn un maes o fewn y Cyngor nad yw wedi gallu gwrthbwyso gorwariannau'n llwyr o fewn y portffolio. Mae'r gorwariannau hyn wedyn yn effeithio ar sefyllfa'r Cyngor o ran ei gyllideb ar y cyfan.

50 Mae adolygiad o adroddiadau alldro'r gyllideb yn dangos bod gan y Gwasanaethau Cymunedol hanes o orwario yn erbyn y gyllideb. Ond mae gorwariannau'n gostwng ac yn 2019-20 adroddodd y Gwasanaethau Cymunedol ar gyfanswm gorwariant mewn perthynas â'u cyllideb o 1% yn erbyn cyllideb o £12 miliwn, fel a nodir yn **arddangosyn 3** isod.

**Arddangosyn 3: perfformiad y gwasanaethau cymunedol yn erbyn y gyllideb**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos sut y mae'r Gwasanaethau Cymunedol wedi perfformio yn erbyn y gyllideb rhwng 2017-18 a 2019-20 yn ogystal â'r perfformiad a ragwelir ar gyfer 2020-21.

| | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £10.28 | £10.91 | £0.63 | 6% |
| 2018-19 | £11.52 | £12.00 | £0.48 | 4% |
| 2019-20 | £12.05 | £12.20 | £0.15 | 1% |
| 2020-21 (rhagolwg) | £11.99 | £12.28 | £0.29 | 2% |

Ffynhonnell yr arddangosyn: 2017-18 - 2019-20: Adroddiadau Alldro'r Gyllideb; 2020-21: Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer M9.

51 Gan bod rhai o'r cyllidebau sy'n eistedd o fewn y Gwasanaethau Cymunedol wedi'u rhannu rhwng mwy nag un maes gwasanaeth, nid ydym wedi gallu cynhyrchu tabl tebyg sy'n dangos perfformiad yn erbyn y gyllideb ar gyfer y gwasanaethau Cymdogaeth, Eiddo a seilwaith. Fodd bynnag, mae dadansoddiad fesul maes o fewn y gyllideb wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r rhain yn dangos bod gan bob maes o fewn y gyllideb sy'n eistedd o dan y Gwasanaethau Cymunedol duedd o ran gorwariannau sy'n mynd yn llai.

52 Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i fonitro a rheoli pwysau o ran costau a gorwariannau. Er enghraifft, mae ganddo bellach Is-grŵp Pwysau o ran Costau,

sy'n cwrdd yn chwarterol i herio ac asesu cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu portffolios sy'n gorwario. Mae'r trefniadau'n gadarn ac wedi cyfrannu at leihau gorwariannau ar draws y Cyngor, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymunedol.

53 Ceir peth amrywioldeb yn ansawdd y diweddariadau chwarterol i'r cynlluniau gweithredu. Er enghraifft, nid yw'r holl gynlluniau'n dangos cynnydd yn glir, gyda rhai pwysau o ran costau a chamau gweithredu'n dal heb newid rhwng chwarteri. Gallai'r Is-grŵp fanteisio i'r eithaf ar y trefniadau presennol trwy sicrhau ei fod yn herio ansawdd cynlluniau gweithredu'n gadarn. Mae diffyg graddfeydd amser yn y cynlluniau hefyd, sy'n ei gwneud yn anodd asesu a yw camau gweithredu ar y trywydd iawn. Dylai'r Cyngor ystyried diwygio'r templed ar gyfer cynlluniau gweithredu, fel bod rhaid i swyddogion gynnwys targedau mesuradwy a dangos cynnydd rhwng chwarteri'n fwy clir.

54 Mae partneriaid busnes cyllid yn cefnogi swyddogion yn y Gwasanaethau Cymunedol yn effeithiol. Maent yn cwrdd yn rheolaidd â deiliaid cyllidebau a rheolwyr ac yn cynhyrchu ystod o ddata ariannol i roi cymorth i fonitro a herio'r gyllideb.

55 Roedd y rhan fwyaf o swyddogion y siaradom ni gyda hwy yn ystod grwpiau ffocws yn cael gwybodaeth ariannol reolaidd. Cyfeiriodd swyddogion y Gwasanaethau Cymdogaeth at newid mewn diwylliant ers ailstrwythuro'r gwasanaethau, gyda mwy o atebolrwydd ymhlith staff am fonitro sefyllfaoedd ariannol ac eitem sefydlog ar gyllidebau ar yr agenda ar gyfer arweinwyr tîm.

56 Mae'r Gwasanaethau Cymunedol yn adolygu eu cyllidebau'n flynyddol gyda chyllidebau sylfaenol yn cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant, pwysau o ran costau y cytunwyd arnynt, ac arbedion wedi'u cynllunio. Mae cynlluniau busnes yn cwmpasu'r cyfnod 2018-22 ond nid ydynt yn cynnwys data ariannol felly ni welsom unrhyw dystiolaeth o gynllunio ariannol tymor hwy o fewn y Gwasanaethau Cymunedol.

57 Canfu ein dadansoddiad fod y rhan fwyaf o orwariannau'n anghylchol, sy'n awgrymu bod camau gweithredu i fynd i'r afael â gorwariannau a / neu ymgorffori pwysau parhaus o ran costau mewn cyllidebau sylfaenol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae pwysau newydd o ran costau sy'n dod i'r amlwg yn dal i achosi problemau yn ystod y flwyddyn.

58 Roedd rhai swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n teimlo bod ganddynt ddylanwad cyfyngedig ar y prosesau pennu ar gyfer cynllunio'r gyllideb a chreu incwm. Mae rhai meysydd, yn enwedig o fewn Gwasanaethau Seilwaith, yn cael eu hariannu â grantiau'n bennaf a chyllidebau craidd bach iawn sydd ganddynt. Mae hyn yn creu heriau penodol i gynllunio ariannol cadarn. Her bellach i gynllunio ariannol yn y Gwasanaethau Cymunedol yw'r anhawster rhagweld yn gywir beth fydd cost ymateb i ddigwyddiadau anrhagweladwy, er enghraifft tywydd garw neu dipio anghyfreithlon.


59 Gallai'r Gwasanaethau Cymunedol gryfhau eu cynaliadwyedd ariannol trwy fabwysiadu dull mwy strategol, tymor canolig o ran cynllunio ariannol. Trwy ragweld, lle y bo'n bosibl, y galw am wasanaethau a chost gwasanaethau yn y

dyfodol (gan gynnwys pwysau o ran costau ac anghenion buddsoddi a ddisgwylir, e.e. i gyrraedd targedau perfformiad yn y dyfodol), gall y Gwasanaeth gynllunio rhag blaen i sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a chamau gweithredu i leddfu pwysau o ran costau a ragwelir.

60 Fe wnaethom gymharu gwariant y Cyngor ar wastraff a phriffyrdd (y ddau faes gwariant mwyaf yn y Gwasanaethau Cymunedol) â gwariant yn y meysydd hynny gan awdurdodau lleol eraill. Canfuom mai gwasanaethau gwastraff y Cyngor oedd y 5ed drutaf yng Nghymru yn 2016-17, a hwythau wedi costio £93.52 y pen o'r boblogaeth. Erbyn 2019-20, roedd y gost wedi cynyddu 6% i £99.47 y pen, y 6ed drutaf yng Nghymru. I roi'r cynnydd hwn yn ei gyd-destun, 6% ac 8% oedd y cynnydd cyfartalog yng nghostau gwasanaethau gwastraff awdurdodau lleol y cymoedd yng Nghymru dros y cyfnod. Dylid nodi hefyd bod perfformiad ailgylchu'r Cyngor wedi gwella yn ystod y cyfnod hwn o'r 22ain yng Nghymru i'r 11eg. Fe wnaeth perfformiad pedwar o'r saith awdurdod lleol yn y cymoedd syrthio i safle is dros y cyfnod hwn.

**Arddangosyn 4: gwariant net y pen o'r boblogaeth gan y gwasanaeth gwastraff**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian a wariodd y Cyngor y pen o'r boblogaeth ar wastraff rhwng 2016-17 a 2019-20. Mae hefyd yn dangos y gwariannau cyfartalog ar draws awdurdodau lleol Cymru a'r cymoedd.





Ffynhonnell yr arddangosyn: Data Alldro Refeniw a phoblogaeth Stats Cymru

61 Canfuom mai gwasanaeth priffyrdd y Cyngor oedd y 7fed drutaf yng Nghymru yn 2016-17, gan gostio £71.62 y pen o'r boblogaeth. Erbyn 19-20, roedd y gost wedi gostwng 26% i £52.77 y pen, y 10fed drutaf yng Nghymru. Dros yr un cyfnod, fe wnaeth y gost gyfartalog y pen yng Nghymru ostwng 3%, ac yng nghynghorau'r cymoedd fe gynyddodd y gost gyfartalog 8%.

**Arddangosyn 5: gwariant net y pen o'r boblogaeth gan y gwasanaeth priffyrdd**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian a wariodd y Cyngor y pen o'r boblogaeth ar briffyrdd rhwng 2016-17 a 2019-20. Mae hefyd yn dangos y gwariannau cyfartalog ar draws awdurdodau lleol Cymru a'r cymoedd.




Ffynhonnell yr arddangosyn: Data Alldro Refeniw a phoblogaeth Stats Cymru

62 Mae gan y Gwasanaethau Cymunedol hanes da o gyflawni eu harbedion wedi'u cynllunio, fel a nodir yn **arddangosyn 6** isod.

**Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Cymunedol fel canran o arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Gwasanaethau Cymunedol yn bwriadu ei arbed o'u cynlluniau arbedion yn ystod 2018-19 a 2019-20 a faint o hyn a arbedon nhw mewn gwirionedd yn ogystal â ffigyrau amcangyfrifedig ar gyfer 2020-21.

| | Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio (£'000) | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd (£'000) | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd (£'000) | Canran o'r arbedion a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 718 | 718 | 0 | 100% |
| 2019-20 | 732 | 727 | 5 | 99% |
| Amcangyfrif 2020-21 | 553 | 439 | 37 | 79%[4] |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Fe gyfrifom ni werth arbedion wedi'u cynllunio ac a gyflawnwyd mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymunedol o ddogfennau'r Cyngor, Adroddiadau Alldro'r Gyllideb ac adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer M9.

63 Yn gyson â gweddill y Cyngor, mae'r Gwasanaethau Cymunedol wedi symud i ffwrdd oddi wrth ddull blynyddol o adnabod arbedion, a oedd yn anghynaliadwy dros y tymor hwy. Cafodd arbedion ar gyfer 2020-21 eu hadnabod trwy adolygiadau busnes strategol y Cyngor, Pontio'r Bwlch, sy'n amcanu at adnabod cyfleoedd ar gyfer arbedion hirdymor, cyfleoedd posibl i osgoi costau a ffrydiau refeniw newydd. Bydd y dull hwn yn helpu i gryfhau cynaliadwyedd ariannol y Cyngor trwy leihau ei ddibyniaeth ar arbedion byrdymor. Yn 2020-21, roedd y Cyngor yn bwriadu arbed £1.47m trwy Pontio'r Bwlch, yr oedd £0.55m (38%) ohono'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymunedol.

64 Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar allu'r Gwasanaethau Cymunedol i gyflawni eu holl arbedion wedi'u cynllunio yn 2020-21. Er enghraifft, roedd Gwasanaeth Gwastraff Masnachol newydd ag incwm a ragwelid o £23k y flwyddyn i fod i gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020. Ond fe wnaeth y Cyngor atal y broses o'i gyflwyno oherwydd y pandemig ac, o ystyried effaith barhaus COVID-19, mae wedi diwygio disgwyliadau o ran incwm yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth newydd, sy'n beth doeth.

[4] Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn disgwyl y byddai'n cyflawni isafswm o £439,000 (79%) o'r arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2020—21, gyda £36.5,000 (7%) yn rhai nad oedd yn bosibl eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae £77,000 (14%) pellach o arbedion wedi'u cynllunio'n ymwneud â thargedau incwm estynedig a chodiadau i ffioedd a thaliadau, ond nid oeddem yn gallu cyfrifo pa gyfran o'r arbedion hyn fydd yn cael ei chyflawni gan nad oedd dadansoddiad fesul maes gwasanaeth ar gael.

# Atodiad 1

## Perfformiad y Gwasanaethau Cymunedol yn erbyn y gyllideb

**Arddangosyn 7: perfformiad y Gwasanaethau Cymunedol yn erbyn y gyllideb – dadansoddiad yn ôl maes o fewn y gyllideb**

Dengys yr arddangosyn canlynol sut y mae pob maes o fewn y gyllideb yn y Gwasanaethau Cymunedol wedi perfformio yn erbyn y gyllideb rhwng 2017-18 a 2019-20 yn ogystal â'r perfformiad a ragwelir ar gyfer 2020-21.

| Gwastraff[5] | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 3.67 | 3.67 | 0 | 0% |
| 2018-19 | 4.70 | 4.84 | 0.14 | 3% |
| 2019-20 | 5.17 | 5.25 | 0.07 | 1% |
| 2020-21 (rhagolwg) | 4.69 | 5.00 | 0.31 | 7% |

| Priffyrdd a Ffyrdd | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 3.26 | 3.58 | 0.32 | 10% |
| 2018-19 | 2.60 | 2.75 | 0.15 | 6% |
| 2019-20 | 2.55 | 2.58 | 0.03 | 1% |
| 2020-21 (rhagolwg) | 3.01 | 3.02 | 0.01 | 0.5% |

| Gwasanaethau Cyhoeddus | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 1.77 | 1.83 | 0.06 | 3% |
| 2018-19 | 2.09 | 2.25 | 0.15 | 7% |
| 2019-20 | 1.86 | 1.90 | 0.04 | 2% |
| 2020-21 (rhagolwg) | 1.79 | 1.71 | -0.08 | -5% |

[5] Y gyllideb gyfunol ar gyfer casglu gwastraff, trosglwyddo gwastraff a gwaredu gwastraff yw hon.

| Gwasanaethau Trafnidiaeth | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | | | | |
| 2018-19 | 0.41 | 0.35 | -0.06 | -15% |
| 2019-20 | 0.27 | 0.27 | -0.005 | -2% |
| 2020-21 (rhagolwg) | 0.51 | 0.51 | -0.002 | -0.4% |

| Rheoli Cyfleusterau | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 1.61 | 1.89 | 0.28 | 17% |
| 2018-19 | 1.89 | 1.93 | 0.04 | 2% |
| 2019-20 | 2.20 | 2.21 | 0.01 | 0.1% |
| 2020-21 (rhagolwg) | 1.88 | 1.93 | 0.05 | 3% |

| Gwasanaethau Diwylliannol ac Amgylcheddol | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | -0.03 | -0.04 | -0.01 | -54% |
| 2018-19 | 0.02 | 0.08 | 0.06 | 425% |
| 2019-20 | 0.11 | 0.11 | 0.006 | 6% |
| 2020-21 (rhagolwg) | 0.13 | 0.13 | 0 | 0% |

| Gwasanaethau Adrannol | Cyllideb (£m) | Alldro (£m) | Gorwariant (£m) | Gorwariant (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | -0.004 | -0.009 | -0.005 | -118% |
| 2018-19 | -0.199 | -0.207 | -0.008 | -5% |
| 2019-20 | -0.110 | -0.112 | -0.002 | -2% |
| 2020-21 (rhagolwg) | -0.006 | -0.012 | -0.006 | -93% |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: 17-18 - 19-20: Adroddiadau Alldro'r Gyllideb; 20-21: Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer M9.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.